# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN DYDD MERCHER, 14EG TACHWEDD 2018 AM 10.30 A.M.

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd D. Poole - Cadeirydd

Cynghorwyr:

C. Cuss (Gofal Cymdeithasol a Lles), N. George (Gwasanaethau'r Gymdogaeth), C.J. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), Mrs B.A. Jones (Cyllid, Perfformiad a Llywodraethu), P. Marsden (Addysg a Chyflawniad), S. Morgan (Economi, Isadeiledd a Chynaliadwyedd), L. Phipps (Cartrefi a Lleoedd) ac E. Stenner (Yr Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd).

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro), M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro – Cymunedau), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), J. Williams (Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Gwasanaethau i Oedolion).

Hefyd yn Bresennol:

R. Hartshorn (Pennaeth Gwasanaethau Diogelwch y Cyhoedd, Cymuned a Hamdden), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), N. Scammell (Pennaeth Cyllid Corfforaethol a Swyddog Adran 151), J. Reynolds (Rheolwr Cyfleusterau Chwaraeon a Hamdden), J. Lougher (Rheolwr Datblygiad Chwaraeon a Hamdden) ac A. Dredge (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

### 1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau dros absenoldeb gan D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai) oherwydd profedigaeth aelod agos o'r teulu ac fe ofynnodd y Cadeirydd i lythyr o gydymdeimlad cael ei anfon at y Cyfarwyddwr ar ran y Cabinet a'r Swyddogion.

### 2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd C. Gordon fuddiant personol a rhagfarnol ar ddechrau'r cyfarfod mewn perthynas ag eitem 6 ar yr Agenda - Strategaeth Ddrafft Chwaraeon a Hamdden Egnïol 2019-29. Mae'r manylion wedi eu cofnodi gyda'r eitem briodol.

### 3. CABINET – 31AIN HYDREF 2018

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31ain Hydref 2018 (cofnod rhifau 1–6), a'u llofnodi fel cofnod cywir.

**MATERION OEDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**4. CYNIGION CYLLIDEB DRAFFT AR GYFER 2019/20**

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid Corfforaethol a Swyddog Adran 151 yr adroddiad a roddodd fanylion i'r Cabinet am y cynigion cyllideb drafft ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20 a chaniatáu cyfnod o ymgynghori cyn penderfyniad terfynol gan y Cyngor Llawn. Mae'r cynigion wedi'u seilio ar Setliad Ariannol Llywodraeth Leol Dros Dro 2019/20 Llywodraeth Cymru (LlC) a chodiad treth y cyngor uwch na'r rhagolygon i dalu am darged arbedion o £15.6 miliwn er mwyn galluogi'r Awdurdod i osod cyllideb gytbwys. Nodwyd y llinell amser yn dilyn y cyfarfod hwn sy'n cynnwys ymgynghoriad mewn perthynas â'r cynigion sy'n rhedeg o 19eg Tachwedd 2018 i 11eg Ionawr 2019. Yna bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar 13eg Chwefror 2019 a'r Cyngor llawn ar 21ain Chwefror 2019. Mae Seminar Aelodau hefyd wedi'i drefnu ar 15fed Tachwedd 2018 i ystyried y cynigion.

Cyfeiriwyd y Cabinet at baragraff 4.2.1. yn yr adroddiad sy'n nodi'r cynigion a fydd yn darparu cyllideb gytbwys ar gyfer 2019/20, ynghyd â rhai arbedion ymlaen llaw ac ar y sail bod Treth y Cyngor yn cynyddu 6.95%. Bydd hyn yn cynyddu praesept Band D Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili o £1,057.70 i £ 1131.21 h.y. cynnydd blynyddol o £73.51 neu gynnydd wythnosol o £1.41. Bydd y cynnydd yn nhreth y cyngor i 6.95% o'i gymharu â'r cynnydd gwreiddiol a ragwelwyd o 4.52% yn arbed £1 miliwn o'r arbedion arfaethedig. Mae Treth y Cyngor yn cefnogi 20% o wariant yr Awdurdod Lleol ac mae LlC yn dyrannu'r 80% pellach. Nodwyd mai dyma'r targed arbedion uchaf y mae Caerffili wedi wynebu erioed a bydd angen gwneud arbedion sylweddol pellach dros y 4 i 5 mlynedd nesaf.

Pwysleisiodd y Swyddog fod yr Awdurdod yn mynd i mewn i amseroedd heb eu tebyg o'r blaen a bydd penderfyniadau anodd yn cael eu gwneud wrth symud ymlaen. Cyfeiriodd at bwyntiau allweddol Setliad Ariannol Llywodraeth Leol Dros Dro 2019/20 LlC a gyhoeddwyd ar 9fed Hydref 2018. Mae gostyngiad net cyffredinol o 0.3% yn y Cyllid Allanol Cyfunol (CAC) (Grant Cynnal Refeniw (GCR) a Threthi Annomestig wedi'i Ailddosbarthu) ar sail Cymru gyfan o'i gymharu â 2018/19. Mae hyn yn cynnwys cyllid ychwanegol ar gyfer Prydau Ysgol Am Ddim o £7 miliwn, Gofal Cymdeithasol o £20 miliwn a Thâl Athrawon o £13.7 miliwn. Mae'r rhain oll yn bwysau o ran cost y mae angen eu hariannu. Ar gyfer Caerffili, mae gostyngiad o £560 mil mewn arian, sef gostyngiad o 0.21% yn y CAC o'i gymharu â blwyddyn ariannol 2018/19. Nid yw LlC wedi darparu gostyngiad/cynnydd canran dangosol Cymru gyfan yn y CAC ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21. Mae'r dyraniadau Cyfalaf sydd ar gael i Gaerffili yn y GCR ac o'r Grant Cyfalaf Cyffredinol wedi gostwng £23 mil o flwyddyn ariannol 2018/19. Fel yn y blynyddoedd blaenorol, mae ansicrwydd o hyd o ran grant cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019/20 a rhagwelir y bydd cyllid grant yn lleihau. Bydd LlC yn rhyddhau ei setliad terfynol ar 19eg Rhagfyr 2018 a chadarnhau a oes unrhyw arian pellach ar gael.

Nododd y Cabinet fod y cynigion cyllideb drafft yn cynnwys twf i Ysgolion yn 2019/20 i dalu am yr holl bwysau sy'n gysylltiedig â thâl, neu nad ydynt yn ymwneud â thâl, neu dwf demograffig. Nid oes unrhyw ofyniad yn y Setliad Dros Dro i amddiffyn Ysgolion. Mae Atodiad 2 yn cynnig targed arbedion i ysgolion o £2.1 miliwn. Mae hyn mewn gwirionedd yn cyfateb i doriad go iawn o tua 2%. Fodd bynnag, mae angen ystyried hyn ochr yn ochr â'r angen i gyflawni arbedion o £15.6 miliwn ar gyfer 2019/20. Mae gwariant ysgolion tua 30% o'r gwariant net sydd ar gael yn y gyllideb. Felly, mae'r cynnig arbedion o £2.1 miliwn h.y. 13% o'r cyfanswm arbedion sy'n ofynnol yn darparu amddiffyniad cymharol i ysgolion rhag y maint llawn o arbedion sydd eu hangen i ddarparu cyllideb gytbwys.

Cyfeiriwyd yr aelodau at atodiadau 2 a 3 o'r adroddiad sy'n nodi'r cynigion arbedion sy'n cael eu rhannu'n ddau gategori, y rhai sy'n barhaol a'r rheiny sydd dros dro (h.y. nid ydynt yn gynaliadwy yn y tymor byr i ganolig a byddant yn ail-ymddangos yn 2021). Nid yw'r arbedion dros dro yn ddelfrydol, ond ni ellir eu hosgoi oherwydd yr ansicrwydd ynglŷn â chyllid yn enwedig mewn perthynas â chynyddu cyfraniadau pensiwn cyflogwyr i Athrawon â'r

Gwasanaeth Tân. Esboniodd y Swyddog fod defnyddio'r dull hwn yn hytrach na chronfeydd wrth gefn yn cael ei ystyried yn arfer da gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA).

Eglurodd y Swyddog nad yw cynigion y Gyllideb Ddrafft 2019/20 yn ystyried bod unrhyw arian ychwanegol o gymharu â'r Setliad Dros Dro, gan nad oes unrhyw beth wedi'i gadarnhau ar hyn o bryd. Os bydd arian ychwanegol ar gael cyn y penderfyniad terfynol ar y gyllideb yn 2019, bydd adroddiadau pellach yn cael eu diweddaru i adlewyrchu'r cyllid ychwanegol hwn. Atgoffwyd yr Aelodau am yr arbedion sylweddol sydd eu hangen yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (MTFP) a'r angen i sicrhau ymagwedd ddarbodus mewn perthynas â gosod cyllidebau. Cynghorwyd y Cabinet i wneud arbedion ymlaen llaw, lle bo modd. Wrth edrych ymlaen, bydd cynigion yn cael eu datblygu i fynd i'r afael â'r heriau ariannol sylweddol sy'n mynd rhagddynt ac fe dderbynnir yn gyffredinol na all y Cyngor barhau fel y mae. Ni fydd setliad LlC a'r cynnydd yn Nhreth y Cyngor yn ddigonol i fantoli'r gyllideb, sy'n ofyniad cyfreithiol. Mae angen edrych ar y ffordd y defnyddir adnoddau i ddarparu gwasanaethau sy'n ofynnol gan y cymunedau ar draws y fwrdeistref sirol.

Mynegodd holl Aelodau'r Cabinet eu rhwystredigaeth am y gostyngiad arfaethedig mewn cyllid a buont yn siarad yn angerddol am yr effaith bosibl ar feysydd y Gwasanaeth o fewn eu portffolios. Diolchodd yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Perfformiad a Llywodraethu i'r Swyddogion am yr adroddiad helaeth a dywedodd y dylai siâp y Cyngor newid gan nad yw'n gallu parhau i ddarparu gwasanaethau fel y gwnaethpwyd o'r blaen. Nid yw LlC wedi rhoi 'chwarae teg' i Lywodraeth Leol o ran ei ddyraniad cyllid. Dywedodd fod trafodaethau yn mynd rhagddynt gyda'r Arweinydd a'r Gweinidogion yn LlC ynghylch y mater hwn ac anogodd y Cabinet i gefnogi'r argymhellion yn yr adroddiad.

O ran cyfraniadau pensiwn cyflogwyr ar gyfer personél Athrawon a Gwasanaeth Tân nodwyd bod pwysau twf sylweddol ychwanegol mewn perthynas â'r cynlluniau pensiwn hyn wedi dod i'r amlwg. Dywedodd y Cadeirydd nad oedd gan yr Awdurdod unrhyw ddewis ond i dalu'r cynnydd yn unol â'r gyfradd a bennwyd gan y Llywodraeth Ganolog gan mai cynlluniau heb eu hariannu yw'r rhain. Cadarnhaodd y Swyddog y gall Trysorlys Ei Mawrhydi dalu taliad 'unwaith ac am byth' i dalu am y costau hyn ar gyfer 2019/20 ond mae llawer o ansicrwydd ynghylch y taliad unwaith ac am byth hwn a chyllido yn y dyfodol a fyddai'n gwneud hyn yn bwysau twf rheolaidd sylweddol. Dywedodd y Cadeirydd ei fod ef, fel Arweinydd, ynghyd ag Arweinwyr Cynghorau eraill ledled Cymru, wedi ysgrifennu at y Trysorlys yn mynegi pryderon difrifol ynglŷn â chyllid.

Gofynnodd y Cadeirydd am eglurhad pam nad oedd cyfeiriad at y defnydd o gronfeydd wrth gefn yn yr adroddiad. Dywedodd y Swyddog fod nifer o resymau pam na ddylid defnyddio cronfeydd wrth gefn. Yn bennaf oherwydd y ffaith mai ond unwaith y gellid defnyddio'r cronfeydd wrth gefn yn erbyn yr hyn sy'n ofyniad arbed blynyddol yn flynyddol, byddai eu defnydd mewn gwirionedd ond yn 'pontio'r' broblem tan y flwyddyn ganlynol. Trwy 'glustnodi' gronfeydd wrth gefn ar gyfer prosiectau cyfalaf untro gellir tynnu arian cyfatebol ychwanegol, gan gynyddu'r gronfa ariannu yn sylweddol. Er enghraifft, byddai rhaglen Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif yn defnyddio'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i wneud cais am arian cyfatebol LlC gan ddyblu'r arian sydd ar gael ar gyfer cynigion y cynlluniau. Cyfeiriodd y Pennaeth Cyllid Corfforaethol a Swyddog Adran 151 at gyngor (CIPFA) mewn perthynas â hyn. Yna aeth y Swyddog ymlaen i esbonio bod yn rhaid iddi roi barn i'r archwilwyr allanol o ran hyfywedd CBS Caerffili fel busnes gweithredol. Ers 2017, ei barn, a oedd yn seiliedig ar dystiolaeth ffeithiol, oedd bod Caerffili yn fusnes gweithredol. Mae mantolen gref, cyflwyno arbedion ynghyd â phenderfyniadau anodd gan aelodau, oll yn ddangosyddion da o allu Awdurdod i ddangos eu bod yn fusnes gweithredol. Yna gofynnwyd am eglurhad ynghylch cyfreithlondeb cyflwyno cyllideb ddiffyg. Dywedodd y Swyddog ei bod yn ofyniad cyfreithiol i osod cyllideb fantoledig ac, pe na bai Aelodau yn gwneud hynny, y gwaethaf fyddai'n gallu digwydd byddai gweld defnyddio pwerau Adran 114 a fyddai, mewn gwirionedd, yn cymryd penderfyniadau oddi wrth Aelodau. Aeth y Swyddog ymlaen i nodi ei bod hi'n hyderus yn yr Aelodau i wneud y penderfyniadau anodd y mae'n rhaid eu gwneud wrth symud ymlaen.

Atgyfnerthodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro ofyniad cyfreithiol yr aelodau i osod cyllideb fantoledig.

Mynegodd y Cynghorydd P. Marsden ei siom y gall cynigion hefyd effeithio ar staff Addysgu yn y dyfodol. Dywedodd gyda thristwch mawr y bydd angen newid sylfaenol yn y modd y mae'r Cyngor yn darparu ei wasanaethau. Dywedodd y Cynghorydd C. Cuss, fel Aelodau Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol, fod y misoedd diwethaf wedi bod yn boenus gan wybod y bydd y toriadau hyn yn effeithio ar y bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Nid yw Llywodraeth Leol wedi cael dyraniad ariannol teg, o safbwynt y portffolio hwn, mae gofal cymdeithasol yn darparu ymyriadau ataliol sy'n helpu i leihau pwysau ar y GIG. Ychwanegodd, bod y GIG wedi derbyn cynnydd o 7% tra bod cyllid wedi'i leihau mewn Gofal Cymdeithasol ac fe holodd sut y gellir parhau i ddarparu'r gwasanaethau hyn. Pwysleisiodd y dylai LlC ddarparu cyllid a fydd yn caniatáu hyblygrwydd mewn Gwasanaethau. Dywedodd Aelod Cabinet Cartrefi a Lleoedd pan roddir yr adnoddau cywir i Awdurdodau Lleol maen nhw'n gwneud y gwaith yn dda fel y gwelir yn y rhaglen SATC.

Mynegodd Aelod Cabinet yr Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd ei phryderon ynghylch colli Wardeniaid Diogelwch Cymunedol a'r gwasanaeth Pryd ar Glud. Mynegodd Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdogaeth ei bryderon ynghylch y cynigion, gan fod ei bortffolio yn darparu gwasanaethau anstatudol. Mae nhw wedi mynd y tu hwnt i leihau'r gwasanaethau ac erbyn hyn maent yn cael eu gorfodi i ystyried cau gwasanaethau. Cyfeiriodd at gau 2 safle amwynder, 4 Canolfan Gymunedol a cholli ysgubwyr mecanyddol. Cyfeiriodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol at y broses ymgynghori cyllideb ac anogodd 'bawb i gymryd rhan'. Gofynnodd Aelod y Cabinet dros yr Economi, Seilwaith a Chynaliadwyedd am eglurhad mewn perthynas â chyllideb Priffyrdd. Cyfeiriodd y Swyddog at atodiad 3 a chadarnhaodd nad yw cynigion dros dro yn ddelfrydol nac yn gynaliadwy. Dywedodd fod angen i'r Aelodau feddwl yn ofalus ynghylch ble bydd y Cyngor yn y 4 - 5 mlynedd nesaf a bydd angen i Aelodau ystyried pa wasanaethau a ddarperir a pha wasanaethau fydd yn dod i ben. Nodwyd y bydd adroddiadau pellach yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet dros y 6 - 12 mis nesaf lle bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd ynghylch lleihau gwariant a fyddai'n effeithio ar staff a gwasanaethau.

Mynegodd yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Perfformiad a Llywodraethu ei pharch at farn ei chydweithwyr yn y Cabinet, ac ni fyddai'r un ohonynt yn dewis bod yn y sefyllfa hon ac unwaith eto annogodd Aelodau i gefnogi'r argymhellion yn yr adroddiad. Dywedodd y Cadeirydd fod y gostyngiad mewn cyllid yn bwysau cenedlaethol. Rhoddodd trosolwg cyffredinol o'r gwasanaethau yr effeithir arnynt a dywedodd ei fod yn teimlo'n 'wrthun' am y sefyllfa yr oedd hyn ac awdurdodau eraill yn cael eu rhoi ynddi, ac er pa mor anfodlon ydynt, nid oes dewis i'r Cabinet ond i gefnogi'r argymhellion. Dywedodd ei fod yn ofni am ddyfodol Llywodraeth Leol a byddai'n parhau i lobïo ynghyd â'r holl Awdurdodau Lleol eraill ledled Cymru am fwy o gyllid i ganiatáu i Awdurdodau barhau i ddarparu gwasanaethau. Dywedodd y Prif Weithredwr Dros Dro fod yr Awdurdod Lleol eisoes wedi cyflawni £89 miliwn gyda'r mwyafrif trwy arbedion effeithlonrwydd ond ni ellir cynnal hyn. Cadarnhaodd fod Swyddogion hefyd yn lobïo â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ynghylch y sefyllfa ariannu. Wrth edrych ymlaen, dywedodd fod yn rhaid i'r Cyngor wneud arbedion o £60 miliwn yn y 4 i 5 mlynedd nesaf, sef tua 20% o'r gyllideb. Bydd y Tîm Rheoli Corfforaethol yn gweithio gyda'r Cabinet ac Aelodau ehangach wrth lunio siâp yr Awdurdod Lleol ar gyfer y dyfodol.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog:-

(i) i gymeradwyo cynigion cyllideb drafft 2019/20 gan gynnwys yr arbedion arfaethedig sy'n gyfanswm o £14.66 miliwn;

(ii) i gytuno ar y cynnig i gynyddu Treth y Cyngor o 6.95% ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20 i sicrhau bod cyllideb fantoledig yn cael ei chyflawni (Band D Treth y Cyngor i'w osod ar £1,131.21);

(iii) y bydd cynigion cyllideb drafft yn destun ymgynghoriad cyn i gyllideb derfynol 2019/20 gael ei chyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor yn Chwefror 2019.

## 5. HYSBYSIAD O GYNNIG – STRATEGAETH CHWARAEON A HAMDDEN EGNÏOL (SARS) 2019–2029.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau Dros Dro yr adroddiad a oedd yn rhoi manylion yr Hysbysiad o Gynnig a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd ar 30ain Hydref 2018 gan y Cynghorydd K. Etheridge. Gofynnodd yr Hysbysiad o Gynnig i'r Pwyllgor Craffu wneud argymhelliad i'r Cabinet a fyddai'n cael ei drafod ar 14eg Tachwedd 2018 bod y strategaeth gyfan yn cael ei chyfeirio at y Cyngor Llawn i'w thrafod ac i fynd i bleidlais gan yr holl aelodau etholedig er mwyn bod yn agored a thryloyw. Cytunodd y Pwyllgor Craffu yn unfrydol y dylid cefnogi'r Hysbysiad o Gynnig, ac y dylid argymell i'r Cabinet y dylid cyfeirio Strategaeth Ddrafft Chwaraeon a Hamdden Egnïol 2019-29 ar 14eg Tachwedd 2018 i'r Cyngor i'w chymeradwyo.

Cytunodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Etheridge siarad yn y Cabinet ynghylch yr Hysbysiad o Gynnig. Diolchodd y Cynghorydd Etheridge i'r Cadeirydd am y cyfle ac ystyriodd fod yr Hysbysiad o Gynnig yn ddi-wleidyddol a'i bod yn cael ei ystyried fel cynnig 'y bobloedd' wedi'i lofnodi gan gynrychiolwyr trawsbleidiol. Teimlai fod yr amser wedi dod i'r 73 aelod etholedig o'r Cyngor sefyll i fyny a chael eu cyfrif ac fe gyfeiriodd at y ddeiseb a gyflwynwyd gyda thros 5000 o lofnodion o ardaloedd eang ledled y fwrdeistref. Dywedodd fod y Strategaeth Chwaraeon a Hamdden Egnïol yn effeithio ar y fwrdeistref sirol gyfan a mynegodd ei bryderon, pe na bai'r Hysbysiad o Gynnig yn cael ei gyfeirio at y Cyngor Llawn yna byddai'n ofni am ddyfodol y rôl Craffu ynglŷn â bod yn agored a thryloyw. Byddai gan y Pwyllgor Craffu ddim ond rhwng 15 ac 20 o Aelodau yn pleidleisio. Gofynnodd y Cynghorydd Etheridge i'r Cabinet ystyried rhinweddau'r Hysbysiad o Gynnig ac i'r mater gael ei gyfeirio at y Cyngor Llawn er mwyn i'r holl Aelodau gael dadl lawn. Cyfeiriodd at y modd y mae'r mater hwn wedi dod â chymunedau at ei gilydd. Wrth gloi, gofynnodd y Cynghorydd Etheridge am gefnogaeth y Cabinet i'r cymunedau lleol ac i'r plant sy'n mynychu Ysgolion Cefn Fforest a Phontllan-fraith.

Dywedodd y Swyddog Monitro fod y penderfyniad mewn perthynas â'r Strategaeth Chwaraeon a Hamdden Egnïol yn swyddogaeth weithredol yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2000. Rhoddodd grynodeb o'r gwahanol swyddogaethau gweithredol a chadarnhaodd fod y Cabinet yn gwneud y mwyafrif helaeth o benderfyniadau'r Cyngor fel sy'n wir ym mhob Awdurdod Lleol ledled Cymru.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, fe'i cytunwyd ac eiliwyd bod yr Hysbysiad o Gynnig ddim yn cael ei gefnogi. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD, am y rhesymau a drafodwyd yn y cyfarfod, ei fod yn cytuno'n unfrydol na chefnogir yr Hysbysiad o Gynnig.

## 6. STRATEGAETH DDRAFFT CHWARAEON A HAMDDEN EGNÏOL 2019–29.

Datganodd y Cynghorydd C. Gordon fuddiant personol a rhagfarnol ar ddechrau'r cyfarfod mewn perthynas â'r eitem hon gan ei fod yn ddefnyddiwr Canolfan Hamdden Pontllan-fraith. Fe adawodd yr ystafell pan gyflwynwyd yr adroddiad ac ni gymerodd ran yn y ddadl na'r

bleidlais.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Gwasanaethau Diogelwch y Cyhoedd, y Gymuned a Hamdden ynghyd â'r Rheolwr Cyfleusterau Chwaraeon a Hamdden a'r Rheolwr Datblygu Chwaraeon a Hamdden. Rhoddodd yr adroddiad wybod i'r Cabinet am ganlyniad yr ymarferiad ymgynghori cyhoeddus a rhoddodd ddiweddariad o Strategaeth ddrafft Chwaraeon a Hamdden Egnïol Caerffili 2019-29 i'w chymeradwyo. Mae'r ddogfen yn nodi pwrpas a chyfeiriad y dyfodol ar gyfer darparu chwaraeon a hamdden egnïol ym Mwrdeistref Sirol Caerffili. Cadarnhaodd Pennaeth Diogelwch y Cyhoedd fod y strategaeth ddrafft (ynghlwm wrth yr adroddiad) yn cefnogi'r Amcanion Llesiant yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor 2018-23 ac mae'n unol â'r egwyddorion datblygu cynaliadwy o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

At ddibenion y strategaeth ddrafft, mae chwaraeon a hamdden egnïol yn cael ei ddiffinio fel amrywiaeth o gyfleoedd chwaraeon a gweithgareddau corfforol sy'n cael eu darparu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar y cyd â phartneriaid allweddol. Nodwyd bod cyfnod ymgynghori o ddeg wythnos wedi'i gynnal i gael barn trigolion, defnyddwyr presennol ac ystod eang o randdeiliaid. Gofynnwyd am farn trwy holiadur ac 11 sesiwn galw heibio a gynhaliwyd ar draws y Fwrdeistref Sirol. Cadarnhaodd y Swyddog y derbyniwyd 711 o ymatebion i'r holiadur a derbyniwyd 20 ymateb ysgrifenedig arall hefyd. Cadarnhawyd proffil yr ymatebwyr gyda 94% o'r rhai a dderbyniwyd wedi dod gan drigolion yr Awdurdod Lleol gyda rhaniad o 50/50 o ddynion/menywod.

Esboniodd swyddogion fod cefnogaeth eang i weledigaeth y strategaeth a'r camau arfaethedig i gefnogi'r gweledigaethau hynny. Yn yr un modd, roedd cefnogaeth i'r 3 chanlyniad allweddol sy'n cefnogi'r camau a nodwyd yn y strategaeth ddrafft. Cyfeiriwyd yr aelodau at adran 4.9 yr adroddiad a oedd yn manylu ar yr ymatebion mewn perthynas â'r adran 'Beth Sydd Angen Ei Wneud' ac fe'u hatgoffwyd o'r amserlen y byddai'r strategaeth yn gweithredu oddi fewn a phwysigrwydd cofio y byddai unrhyw benderfyniadau sy'n deillio ohoni yn cael eu cymryd dros gyfnod o ddeng mlynedd ac felly byddai'n destun adroddiadau pellach a phenodol i'r Cabinet. Dywedodd y swyddogion na all y ddarpariaeth gyfredol barhau yn ei ffurf bresennol gan nad yw'n gynaliadwy. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau teg a chydradd. Cyfeiriodd swyddogion at baragraff 4.10 yr adroddiad a nododd fod 58% o'r ymatebwyr yn cytuno â mabwysiadu Glasbrint Cyfleusterau Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru ar gyfer Chwaraeon a Hamdden Egnïol. Cytunodd 50% gyda mabwysiadu matrics gwneud penderfyniadau ar gyfer pennu darpariaeth cyfleusterau hamdden strategol a reolir yn uniongyrchol gan y Gwasanaeth Chwaraeon a Hamdden, roedd 17% yn anghytuno â hyn ac ymatebodd 33% 'ddim yn gwybod'. Cytunwyd yn gryf y dylai rhaglenni ymyrraeth allgymorth barhau.

Cyfeiriodd y swyddogion at baragraff 4.13 yn yr adroddiad lle tynnwyd sylw at y ffaith bod nifer o ymatebion yn canolbwyntio'n benodol ar bryderon yn ymwneud â chau dau gyfleuster, Canolfan Hamdden Pontllan-fraith a Chanolfan Hamdden Cefn Fforest, a chyda 52% o'r ymatebwyr yn datgan y byddai unrhyw cau cyfleusterau yn cael effaith negyddol. O ran darpariaeth Canolfannau Hamdden, cadarnhaodd swyddogion y byddai unrhyw gynigion ar gyfer cau cyfleusterau yn destun adroddiadau pellach a fyddai'n cael eu cyflwyno i'r Aelodau i'w hystyried. Mae'r strategaeth ddrafft yn canolbwyntio ar y potensial ar gyfer 4 chyfleuster aml-swyddogaeth strategol o'r radd flaenaf a fyddai'n cael eu lleoli yn ddaearyddol o fewn y fwrdeistref er mwyn sicrhau mynediad trwy gludiant cyhoeddus ynghyd â mynediad i'r anabl wedi'i adeiladu'n bwrpasol. Hefyd, dywedodd swyddogion fod y strategaeth hefyd yn edrych ar gyfleoedd ehangach ar gyfer chwaraeon a hamdden egnïol megis y nifer o fannau agored gwych ledled y fwrdeistref ac yn tynnu sylw at y manteision y gallai'r rhain eu cael mewn perthynas â iechyd a lles.

Diolchodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth i'r Swyddogion am ddatblygu strategaeth mor gynhwysfawr. Bydd ei dull cyfannol 10 mlynedd yn annog y cyhoedd i fanteisio ar yr holl gyfleusterau sydd ar gael, gan gynnwys mannau chwarae awyr agored, llwybrau beicio a cherdded a mannau gwyrdd agored. Yn y tymor hir bydd cyfleusterau lefel

uchel yn cael eu datblygu gyda phenderfyniadau penodol i'w cymryd yn ystod y cyfnod 10 mlynedd hwnnw.

Gyda chaniatâd y Cadeirydd gwahoddwyd y Cynghorydd Kevin Etheridge i annerch y Cabinet. Roedd y Cynghorydd Etheridge yn cydnabod y strategaeth 10 mlynedd a'r manteision o ganolbwyntio ar iechyd a lles a chyfeiriodd at y 52% o'r ymatebion a dderbyniwyd a oedd yn teimlo y byddai effaith ad-drefnu cyfleusterau hamdden yn negyddol. Cytunodd â'r pryderon hyn a chyfeiriodd at ganolfannau hamdden ym Mhontllan-fraith, Cefn Fforest a Thredegar Newydd a pha mor hanfodol oedd y rhain i'w cymunedau. Byddai'r Cynghorydd wedi hoffi gweld goblygiadau ariannol drafft neu amcangyfrif a ddarparwyd i'r Pwyllgor Craffu neu'r Cabinet ymlaen llaw a mynegodd bryderon mawr mewn perthynas ag iechyd a lles y cyhoedd o ganlyniad i gau canolfannau hamdden. Cyfeiriodd y swyddogion at baragraff 7 yn yr adroddiad sy'n nodi trosolwg o gostau net pob un o'r gwasanaethau a nodwyd ac sy'n darparu gwybodaeth ariannol sy'n gymesur â hyn fel dogfen strategaeth 10 mlynedd. Cadarnhaodd y Swyddogion y byddai unrhyw benderfyniadau unigol yn destun adroddiadau pellach.

Yna darllenodd y Cadeirydd nifer o gwestiynau a dderbyniwyd gan y Cynghorydd Andrew Farina-Childs a oedd yn cyfeirio at ffigyrau yn ymwneud â'r defnydd yng Nghanolfan Hamdden Pontllan-fraith, y cae 3G a Chanolfan Hamdden Cefn Fforest a darparu cyfleusterau nofio. Mynegodd bryderon ynglŷn ag unrhyw bosibilrwydd y byddai'r safleoedd hyn yn cael eu cau ac ystyriodd y byddai'n cael effaith niweidiol ar drigolion y ddwy gymuned. O ran trafnidiaeth gyhoeddus a'r 'cyfleuster strategaeth', cododd amheuaeth am ddiogelwch plant sy'n dal hyd at ddau fws i gael mynediad i gyfleusterau mewn rhannau eraill o'r fwrdeistref. Yn ogystal, cyfeiriodd at gyfleusterau a rennir gydag ysgolion ac agosrwydd rhai canolfannau hamdden i ysgolion. Gofynnodd a oedd yr opsiwn i ysgolion gymryd cyfrifoldeb am y ddarpariaeth hamdden wedi'i archwilio.

Cadarnhaodd swyddogion nad oedd unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud mewn perthynas ag unrhyw safleoedd penodol ar hyn o bryd ac y byddai unrhyw gynigion yn destun adroddiadau pellach i'r Aelodau. Mae dros 40% o ddefnyddwyr Canolfan Hamdden Pontllan-fraith yn ddefnyddwyr y cae 3G yn hytrach na chyfleusterau eraill a gallai cyfuniad o'r seilwaith maes 3G ychwanegol yn Ysgol Gyfun Coed Duon ac Ysgol Uwchradd Islwyn ateb y gofyn ar gyfer y defnydd hwn wrth symud ymlaen. Eglurodd y swyddogion fod y ffigyrau y cyfeiriwyd atynt yn yr e-bost yn ymwneud â nifer yr ymweliadau ac nid pobl yn ymweld. Cadarnhawyd y byddai darparu gwersi nofio i blant, a fyddai'n parhau i fod, yn flaenoriaeth i gyflawni targed LlC yn y tymor hwy. Nodwyd bod gan Gaerffili fwy o gyfleusterau o ran darpariaeth leol nag unrhyw awdurdod lleol arall yng Nghymru. Cyfeiriodd y swyddogion at y ffaith bod rhai cyfleusterau bellach yn 30-40 mlwydd oed ac ers 2012 roedd ganddynt gost atebolrwydd cynnal a chadw o £3 miliwn.

Yna darllenodd y Cadeirydd nifer o gwestiynau a dderbyniwyd gan breswylydd lleol a ofynnodd i'r Cabinet ystyried y cynnydd mewn clefyd coronaidd y galon yng Nghaerffili a'r angen i sicrhau mynediad hamdden i gefnogi nid yn unig ar gyfer y broses adfer ond hefyd ar gyfer y lles hirdymor. Roedd hyn yn cynnwys y ddarpariaeth barhaus ym Mhontllan-fraith a Chefn Fforest. Cyfeiriodd y preswylydd at y canolfannau rhanbarthol a holodd a fyddai'r rhain yn darparu ar gyfer yr holl drigolion a pham nad oedd mwy o arian wedi'i fuddsoddi mewn cyfleusterau presennol. Rhoddodd y swyddogion fanylion am y Cynllun Atgyfeirio Ymarfer Corff Cenedlaethol (NERS). Mae hwn yn gynllun a ariennir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (PHW) a fu'n datblygu ers 2007. Mae'r Cynllun yn targedu cleientiaid sy'n 16 oed neu'n hŷn sydd â, neu sydd mewn perygl o ddatblygu clefyd cronig, ac mae wedi sicrhau cyllid tan 31ain Mawrth 2019. O ran ysgolion a darpariaeth hamdden, cadarnhaodd Swyddogion mai canolfan hamdden Caerffili yw'r mwyaf yn y fwrdeistref ac nad yw'n gysylltiedig ag ysgol. Cyfeiriwyd ganddynt hefyd at y cynnydd mewn darpariaeth hamdden breifat gyda thwf yn nifer y campfeydd sy'n gweithredu ledled y fwrdeistref sirol. Yna cyfeiriwyd at Ysgol Uwchradd Islwyn a'r cyfleusterau sydd ar gael i'r cyhoedd a chadarnhawyd y bu i Lywodraeth Cymru ei ariannu ag arian cyfatebol a oedd yn golygu bod y Cyngor mewn gwirionedd yn talu 50% o'r gost gyffredinol.

Gofynnodd yr Aelod Cabinet dros yr Economi, Seilwaith a Chynaliadwyedd am eglurhad ar sut mae'r strategaeth yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Esboniodd swyddogion fod y strategaeth yn adlewyrchu'r ymagwedd ehangach a chyfannol tuag at ddull byw egnïol a chadarnhaodd fod rhaid ystyried cynaladwyedd ariannol. Mae'n nodi'r hyn y gall yr awdurdod lleol ei wneud ar gyfer cymunedau ac mae'n darparu amgylchedd ysbrydoledig i blant yn ogystal â llwyfan a fydd yn annog pobl i newid a gwneud dewisiadau dull byw cadarnhaol ac i hyrwyddo cynaladwyedd. Cadarnhaodd swyddogion hefyd fod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB) wedi cymeradwyo'r strategaeth gan ei bod yn cydymffurfio â'u nodau lles eu hunain. Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a Chyflawniad y byddai'r strategaeth hefyd yn cynnig cefnogaeth dechnegol ar gyfer partneriaeth mewn ysgolion. Pwysleisiodd swyddogion bwysigrwydd cydweithio a thynnu adnoddau at ei gilydd er mwyn sicrhau bod plant mor weithgar yn gorfforol ag sy'n bosibl mor ifanc â phosib fel bod hyn yn parhau yn eu bywydau fel oedolion. Gofynnodd Aelod Cabinet yr Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd am eglurhad ynghylch a oedd y strategaeth wedi ystyried y cyflenwad tir tai gan fod yn rhaid iddo allu cefnogi twf. Cadarnhaodd y Swyddog eu bod wedi gweithio gyda chydweithwyr yn Adfywio a Chynllunio a'u bod yn ymwybodol o ddatblygiadau tai newydd ar y gweill ac wedi eu hystyried.

Oherwydd y ddadl helaeth, gadawodd y Cynghorydd P. Marsden, y Prif Weithredwr Dros Dro a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol yr ystafell er mwyn mynychu cyfarfod pellach ac felly nid oedd y Cynghorydd Marsden yn bresennol ar gyfer y bleidlais.

Mynegodd y Cadeirydd ei siom bod canfyddiad y cyhoedd wedi dewis canolbwyntio'n anghywir ar gau canolfannau hamdden yn hytrach na chynnwys gwirioneddol y ddogfen. Cyfeiriodd at yr adroddiad blaenorol ar y cynigion cyllideb drafft ar gyfer 2019/20 ac fe dynnodd sylw at y ffaith nad oedd yr un pennawd cyllidebol yn y ddogfen honno yn cyfeirio at gau canolfannau hamdden.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog cymeradwyo a mabwysiadu'n ffurfiol Strategaeth ddrafft Chwaraeon a Hamdden Egnïol 2019-29.

Terfynwyd y cyfarfod am 1.20p.m.

Cymeradwywyd a llofnodwyd ei fod yn gofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wneir yn y cyfarfod a gynhelir ar 28ain Tachwedd 2018.

______________________

CADEIRYDD